

CANLLAW CENEDLAETHOL DOD YN ATHRO: Cymru 2020/2021



Cynhyrchwyd y canllaw hwn gan y Gwasanaethau Gyrfaedd a Chyflogadwyedd a Busnes a Chymorth Myfyrwyr Ar-lein y Brifysgol Agored.

Dymuna'r Brifysgol bwysleisio, er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, oherwydd newidiadau yn y rheoliadau neu bolisiau ni ddylech ddibynnu ar y wybodaeth yn y canllaw hwn yn unig. Sicrhewch eich bod yn gwirio'r holl wybodaeth yn ofalus a rheolaidd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

The Open University Walton Hall
Milton Keynes MK7 6AA

Ffôn: 01908 274066

Ffacs: 01908 653744

Gwefan: www.open.ac.uk

Hawlfraint © The Open University 2020

Cydnabyddiaethau'r Delweddau:

Clawr: Wavebreak Media Ltd/www.bigstockphoto.com Tudalen 15:
morganlstudios/www.bigstockphoto.com Tudalen 23: Alex
Brylov/www.bigstockphoto.com.

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw, na'i drosglwyddo a'i ddefnyddio ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw ddull, electronig, mecanyddol, llungopïo, recordio nac fel arall, heb ganiatâd ysgrifenedig gan y cyhoeddwr neu drwydded gan yr Asiantaeth Drwyddedu Hawlfraint Cyf. Gallwch gael manylion trwyddedau o'r fath (ar gyfer atgynhyrchu repograffig) gan yr Asiantaeth Drwyddedu Hawlfraint Cyf. o 90 Tottenham Court Road, London W1P 0LP.

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Frenhinol (RC000391), yn elusen a eithrir yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestrdig yn yr Alban (SC 038302). Awdurdodir a rheoleiddir y Brifysgol Agored gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o ran ei gweithgarwch eilradd o froceru credyd.

SUP 032541

Cynnwys

1. Cyflwyniad: Ystyried addysgu fel gyrfa	4
Beth sy'n gwneud athro da?	4
Bydd profiad gwaith yn eich helpu i benderfynu	5
Pa ystod oedran hoffech chi ei addysgu?	5
Argaeledd swyddi addysgu a llefydd hyfforddiant	6
Felly, hoffech chi ddod yn athro?	6
2. Man cychwyn	9
Beth yw'r gofynion mynediad ar gyfer gyrfa yn addysgu?	10
Gofynion academiaidd	10
Gofynion anacademaidd	10
3. Sgiliau a phrofiad	12
Ceisio profiad gwaith	12
Ceisio profiad â thâl	15
4. Hyfforddi i addysgu yng Nghymru	16
Llwybrau prifysgol	16
Llwybr cyflogaeth	17
Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	18
Addysg gynradd	18
Addysgu uwchradd	19
Gwneud cais am hyfforddiant cychwynnol athrawon cynradd ac uwchradd	20
Addysgu addysg bellach	20
Darlithio ac ymchwil addysg uwch	21
Darlithydd Cyswllt y Brifysgol Agored	21
5. Arbenigedd mewn addysgu a gyrfaeodd eraill cysylltiedig ag addysg	23
Addysgu Saesneg fel Iaith Dramor	23
Addysg arbennig	24
Gyrfaeodd eraill cysylltiedig ag addysg	25
6. Adnoddau a chymorth i ddarpar athrawon sydd ag anabledd	26
Eich amgylchiadau unigol	26
Adnoddau ychwanegol	27
7. Cyllid ar gyfer hyfforddiant athrawon	28
8. Cwestiynau cyffredin	29
A allaf i addysgu gyda gradd Agored?	29
Atodiad 1: Manylion cyswllt y Brifysgol Agored	33
Atodiad 2: Gwybodaeth ynghylch gyrfaeodd	35

1. Cyflwyniad: Ystyried addysgu fel gyrfa

Mae'r canllaw cenedlaethol hwn yn rhan o gyfres sy'n cynnwys addysgu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Iwerddon ac mae wedi'i gynhyrchu gan Wasanaethau Gyrfaedd a Chyflogadwyedd y Brifysgol Agored i gynorthwyo darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol sy'n ystyried addysgu fel gyrfa. Gall y cynnwys newid, felly sicrhewch eich bod yn gwirio'r holl wybodaeth yn ofalus a rheolaidd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

Penderfynu hyfforddi'n athro yw cam cyntaf eich taith. Mae gofynion mynediad i'w bodloni, llwybrau cymhwyso gwahanol i'w hystyried yn ogystal â'r rhwystrau o wneud cais am addysg gychwynnol athrawon. Unwaith y byddwch yn gymwys, cewch eich wynebu â gofynion dod o hyd i'ch swydd gyntaf ac mae hyn oll cyn rheoli grŵp o fyfyrwyr am y tro cyntaf.

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu rhai o'r materion hyn ond mae'n bwysig eich bod yn parhau i geisio cyngor drwy gydol eich astudiaethau.

Beth sy'n gwneud athro da?

Mae gormod o briodoleddau o lawer i'w rhestru wrth sefydlu beth sy'n gwneud athro effeithiol a pheth goddrychedd hefyd mae'n debyg.

Er bod brwdfrydedd tuag at addysgu yn bwysig, nid yw'n ddigon. Mae gwaith athro yn gymhleth, yn ddwys ac yn destun straen ar brydiau. Yn ogystal, bydd athrawon yn gwybod bod realiti yr oriau maent yn eu gweithio y tu hwnt i'r rheiny ar yr amserlen, ac mae problemau llwyth gwaith yn adnabyddus iawn.

Wedi dweud hynny, gallwch gael boddhad eithriadol o'ch gwaith. Serch hynny, efallai yr hoffech ystyried y cwestiynau canlynol.

- A yw addysg a gwneud gwahaniaeth i'r rheiny y byddaf yn eu haddysgu yn bwysig i mi?
- A allaf i arddangos safonau uchel cyson o ran ymddygiad personol a phroffesiynol sy'n ofynnol i gynnal ffydd fy myfyrwyr, cydweithwyr a'r proffesiwn?
- A ydw i'n fyfyrion, gwydn, gyda digon o feddwl agored i addasu, manteisio ar newid a datblygu fy arferion wrth i addysg esblygu yn ystod fy ngyrfa broffesiynol?

Cofiwch nad yw eich oedran a'ch cefndir yn bwysig. Un o gryfderau'r proffesiwn yw ei fod yn denu ymgeiswyr o bob cefndir sy'n gwneud gwaith gwych. Mae gan ymgeiswyr hŷn brofiad bywyd sy'n cael ei groesawu ac sydd â gwerth gwych i'r proffesiwn addysgu.

Gallwch ddysgu sut beth yw bod yn athro go iawn gyda chwrs FutureLearn am ddim y Brifysgol Agored – [Dod yn Athro](#). Mae'r cwrs hwn ar gyfer unrhyw un sy'n meddwl dod yn athro - bydd yn eich cynorthwyo i benderfynu a yw addysgu ar eich cyfer chi, yn rhoi synnwyr i chi o sut beth yw addysgu go iawn ac yn eich cynorthwyo i ddechrau ysgrifennu'ch cais am addysg gychwynol athrawon.

Bydd profiad gwaith yn eich helpu i benderfynu

Cyn i chi wneud eich penderfyniad terfynol i addysgu, mae'n ddoeth ennill peth brofiad o weithio gyda'r ystod oedran y dymunech ei addysgu a'r lleoliad y dymunech addysgu ynddo. Byddwch hefyd yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o ddyletswyddau bob dydd athro gan ei bod yn amhosibl cael blas go iawn ar y proffesiwn drwy wneud gwaith ymchwil yn unig. Mae profiad gwaith bron bob tro yn ofyniad gorfodol ar gyfer y llwybrau hyfforddiant i'r proffesiwn felly mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i chi feddwl amdano yn gynnar. Yn fwy na dim, bydd profiad mewn ystafell ddosbarth yn eich cynorthwyo i benderfynu ai addysgu yw'r dewis gyrfa cywir i chi.

Os oes gennych ddigon o brofiad mewn ystafell ddosbarth eisoes, efallai yr hoffech ystyried profiadau eraill sy'n gallu ychwanegu gwerth.

Mae gwybodaeth ynghylch y ffyrdd i ddatblygu profiad perthnasol yn [Sgiliau a phrofiad](#).

Pa ystod oedran hoffech chi ei addysgu?

Mae hwn yn gwestiwn pwysig iawn y bydd angen i chi ei ateb cyn i chi wneud cais am hyfforddiant cychwynol athrawon. Yng Nghymru, mae gennym y cyfnodau canlynol:

- Cyfnod sylfaen 3-7 (yn cynnwys cynradd: yn nodweddiadol, ystod oedran 5-11)
- Uwchradd: yn nodweddiadol, ar draws yr ystod oedran 11-16, 11-18 neu 14-19
- Addysg Bellach: yn nodweddiadol, 16+
- Addysg Uwch: yn nodweddiadol, 18+

Mae eich arbenigedd addysgu yn bwysig hefyd, lle bynnag mae hynny'n berthnasol. Bydd y ddau ffactor hyn hefyd yn effeithio ar eich gradd a'ch dewisiadau modiwlau yn y Brifysgol Agored. Fel cyfarwyddyd, mewn ysgolion uwchradd byddwch fel arfer

yn arbenigo yn un pwn ac mewn ysgolion cynradd, byddwch yn addysgu ar draws yr ystod o bynciau.

Argaeledd swyddi addysgu a llefydd hyfforddiant

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod targedau blynyddol i recriwtio myfyrwyr ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon ar lefel ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Mae argaeledd swyddi addysgu a'r cyflenwad o athrawon cymwysedig ar draws yr ystodau oedran i'w llenwi yn ddarlun cymhleth, gyda ffactorau megis lleoliad a phwnc yn chwarae rhan.

O fis Medi 2019, newidiodd y rhestr o raglenni achrededig Addysg Gychwynnol Athrawon a gynigir gan bartneriaethau yng Nghymru. Mae pedair partneriaeth ar hyn o bryd: Aberystwyth, Caerdydd, CaBan, a Phartneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa. O fis Medi 2020, mae rhagor o bartneriaethau: Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe, Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Prifysgol De Cymru, a Phartneriaeth y Brifysgol Agored. Gallwch ddarllen mwy ynghylch hyn a chael rhestr lawn o ddarparwyr achrededig Addysg Gychwynnol Athrawon ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Felly, hoffech chi ddod yn athro?

Bydd angen i chi ofyn rhai cwestiynau i'ch hunan ynghylch eich profiad a'ch nodau mewn perthynas â mynd i'r byd addysgu. Beth bynnag yw eich sefyllfa ar hyn o bryd, dylech ymchwilio'n drylwyr i'r dewis priodol o fodiwlau ar gyfer eich gradd a gwirio'r gofynion mynediad gyda phob darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon yr ydych yn gwneud cais iddo.

Cwestiwn 1: A oes gennych brofiad gyda'r ystod oedran yr hoffech ei addysgu a'r lleoliad yr hoffech addysgu ynddo ac yn teimlo'n hyderus mai dyma'r yrfa gywir i chi?

Os nad ydych, darllenwch [Sgiliau a phrofiad](#) am syniadau ynghylch sut i ennill profiad.

Cwestiwn 2: A ydych yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer addysgu?

Os nad ydych, darllenwch [Hyfforddi i Addysgu yng Nghymru](#) am gyngor gyda'ch opsiynau hyfforddiant. Darllenwch [y cwestiynau cyffredin](#) hefyd.

Cwestiwn 3: A ydych yn gwybod pa lwybr hyfforddiant y byddwch chi'n ei ddilyn?

Os nad ydych, darllenwch [Hyfforddi i Addysgu yng Nghymru](#) am gyngor gyda'ch opsiynau hyfforddiant. Darllenwch [y cwestiynau cyffredin](#) hefyd.

Cwestiwn 4: A ydych yn fodlon gyda'ch llwybr astudio a'ch dewis o fodiwlau?

Os nad ydych, cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr os ydych yn fyfyrwr presennol y Brifysgol Agored.

Yn olaf, sicrhewch eich bod yn deall yr amserlenni o ran pa bryd y bydd angen i chi wneud cais am hyfforddiant cychwynnol athrawon. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, ewch i'r [Gwasanaethau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd](#).

2. Man cychwyn

Mae nifer o fyfyrwyr y Brifysgol Agored yn mynd i'r byd addysgu, ac ar y cyfan, mae gradd y Brifysgol Agored yn baratoad priodol iawn. Serch hynny, gall dewis yr hyn y byddwch yn ei astudio fod yn allweddol yn sicrhau eich bod yn ennill lle mewn hyfforddiant cychwynol athrawon ac yn y pendraw, ennill swydd yn y proffesiwn addysgu. Gall y radd BA/BSc Agored (Anrhydedd), sydd wedi'i theilwra i'ch gofynion (sydd hefyd yn cael ei hadnabod fel y radd Agored), fod yn ddewis defnyddiol ar gyfer addysgu ond rhaid i chi sicrhau bod y modiwlau o fewn y radd yn briodol i'r ystod oedran yr hoffech ei addysgu a'r lleoliad yr hoffech addysgu ynddo.

Mae nifer o ddarparwyr addysg gychwynol athrawon yn gofyn am o leiaf 50% o'ch gradd i fynd i'r afael â'r wybodaeth bwnc sydd ei hangen arnynt. Mae gradd yn y maes pwnc arbenigol y dymunech ei addysgu yn arbennig o briodol i'r sector uwchradd, addysg bellach a'r sector addysg uwch.

Byddwch yn ymwybodol wrth asesu eich addasrwydd i addysgu, mae'n bosibl y bydd gan ddarparwyr addysg gychwynol athrawon safbwyntiau gwahanol ar eich dewis modiwlau a gradd. Cynghorir chi yn gryf i wirio hyn gyda phob darparwr y dymunech gyflwyno cais iddo cyn dechrau eich gradd (neu cyn gynted â phosibl os ydych eisoes yn astudio). Yn ogystal, mae angen i chi sicrhau eich bod yn cadw llygad rheolaidd ar y gofynion newidiol yn y maes hwn. Efallai y bydd angen i chi wneud hyn **bob blwyddyn** yr ydych yn astudio gyda'r Brifysgol Agored i sicrhau eich bod yn dal i fod ar y llwybr cywir tuag at yrfa addysgu.

Dylai myfyrwyr y Brifysgol Agored fod yn ymwybodol efallai na fydd eich gradd yn cael ei dyfarnu tan fis Rhagfyr, yn dibynnu ar ba bryd y byddwch yn ymgymryd â'ch modiwl terfynol. Bydd y rhan fwyaf o ddarparwyr hyfforddiant cychwynol athrawon yn disgwyl i chi gael cadarnhad swyddogol o'ch dosbarthiad gradd **cyn** i chi ddechrau addysg gychwynol athrawon. Gwiriwch y gofynion mynediad, gan gynnwys disgwyliadau ar eich cynnwys gradd, gydag unrhyw ddarparwr addysg gychwynol athrawon yr ydych yn ei ystyried neu wedi gwneud cais iddo gan y gall gofynion newid flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Os oes gennych gymhwyster tramor, cymhwyster anghyflawn o sefydliad arall neu gymhwyster proffesiynol ac nad ydych yn sicr a ydych yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer hyfforddiant cychwynol athrawon, dylech wirio hyn gyda'ch darparwr hyfforddiant athrawon dewisol.

Os ydych yn fyfyrwr presennol, ar ôl darllen y canllaw hwn efallai yr hoffech sgwrsio'n fanylach gydag un o Ymgynghorwyr Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd y Brifysgol Agored ynghylch eich cais am hyfforddiant cychwynol athrawon. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau a chymorth ar [Wasanaethau Gyrfaoedd](#)

[a Chyflogadwyedd](#). Gallwch geisio gwybodaeth a chyngor ynghylch dewis cymwysterau a modiwlau yn y Brifysgol Agored o [brospectws y Brifysgol Agored](#).

Beth yw'r gofynion mynediad ar gyfer gyrfa yn addysgu?

Yma byddwn yn canolbwyntio ar y prif ofynion academaidd ac anacademaidd ar gyfer addysgu yn y blynyddoedd cynnar, cynradd ac uwchradd. Byddwch yn dod o hyd i ofynion ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch yn [Hyfforddi i addysgu yng Nghymru](#).

Gofynion academaidd

- Ar gyfer rhaglenni hyfforddiant athrawon ôl-radd, bydd angen i chi feddu ar radd israddedig a ddyfarnir gan ddarparwr addysg uwch y DU, neu gyfwerth cydnabyddedig.
- Bydd angen i chi fod wedi cyflawni safon sy'n gyfwerth â gradd B, neu uwch, yn arholiadau TGAU Saesneg a/neu Gymraeg a Mathemateg cyn i'ch rhaglen hyfforddiant ddechrau. Caiff gradd 5 ei derbyn fel gradd sy'n gyfwerth â gradd B, o TGAU diwygiedig yn Lloegr. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â TGAU gradd D, os ydynt yn gwneud cais am rai llwybrau uwchradd - gwiriwch gyda darparwr y cwrs bob tro.
- Os ydych yn bwriadu addysgu disgyblion rhwng tair ac 11 oed (blynyddoedd cynnar a chynradd), rhaid i chi hefyd gyflawni safon gyfwerth â gradd C, neu uwch, mewn arholiad pwnc gwyddoniaeth TGAU.

Gallwch ddarllen mwy ynghylch y gofynion academaidd ar [Darganfod Addysgu](#).

Gofynion anacademaidd

Bydd disgwyl i chi hefyd feddu ar:

- Brofiad mewn ystafell ddosbarth gyda'r ystod oedran y dymunech ei addysgu ac yn y lleoliad y dymunech addysgu ynddo. Gweler [Sgiliau a phrofiad](#) ar gyfer sut i drefnu hyn.
- Ffitrwydd i addysgu - Efallai bydd eich darparwr hyfforddiant yn anfon holiadur iechyd atoch i gael gwybod am eich ffitrwydd meddygol. Gweler [Adnoddau a chymorth i ddarpar athrawon sydd ag anabledd](#).

- Ymgymryd â Gwiriad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd angen i chi ddatgelu unrhyw euogfarnau troseddol, rhybuddion, neu rybuddion rhwymo.

Opsiwn i fyfyrwyr y Brifysgol Agored sydd angen TGAU mewn Saesneg, Mathemateg neu Wyddoniaeth yw ymgymryd â hwn yn y [National Extension College](#) drwy ddysgu o bell. Mae hefyd yn bosibl sefyll TGAU drwy ddsbarth nos mewn coleg addysg bellach lleol neu ddarparwr addysg i oedolion. Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf hyn, mae'n bosibl y bydd eich darparwr hyfforddiant yn gofyn i chi sefyll prawf cyfwerthedd TGAU neu gynnig tystiolaeth arall i chi allu arddangos eich gallu. Noder, at ddibenion hyfforddiant cychwynnol athrawon, **nid yw** cymwysterau llythrennedd a rhifedd lefel 2 yn cael eu hystyried yn gyfwerth â Gradd C neu Radd 4 mewn Iaith Saesneg a Mathemateg TGAU.

Os oes gennych gymwysterau o'r tu hwnt i Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), gall [Canolfan Wybodaeth Cydnabyddiaeth Academaidd Cenedlaethol y DU](#) (UK NARIC) roi cynngor ar ba un ai a yw cymwysterau yn gyfwerth ai peidio. Efallai y gallant roi ardystiadau hefyd.

Efallai na fydd darparwyr TAR yn derbyn modiwlau'r Brifysgol Agored fel rhai sy'n gyfwerth â TGAU. Cyn i chi ddechrau astudio am unrhyw gymhwyster arall, mae'n bwysig eich bod yn gwirio a fydd y sefydliadau yr hoffech wneud cais iddynt yn derbyn y rhain yn hytrach na TGAU.

3. Sgiliau a phrofiad

Yn ogystal â'r wybodaeth a gewch wrth astudio â'r Brifysgol Agored, mae myfyrwyr yn datblygu nifer o sgiliau trosglwyddadwy a nodweddion sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr. Mae'r gallu i gydbwyso astudio â'r Brifysgol Agored gyda gwaith ac ymrwymadau teuluol yn gofyn rheoli amser, hunanddibyniaeth, sgiliau datrys problemau, gwytnwch a blaenoriaethu tasgau yn effeithiol. Efallai yr hoffech wneud dadansoddiad mwy manwl o'ch sgiliau a chyflawniadau gan ddefnyddio'r adnoddau ar wefan [Gwasanaethau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd](#) neu gyda'ch [Canllaw Cynllunio Gyrfa](#). Bydd hyn yn eich cynorthwyo chi i adnabod a thystio'ch cryfderau.

Yn ogystal, rhaid i athrawon fodloni'r safonau a chymwyseddau proffesiynol y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno iddynt. Dylech gynefino eich hun â [Safonau Proffesiynol Hwb dysgu ac addysgu Cymru](#) gan eu bod wedi arfer asesu athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd eu cymhwysu felly maent yn gyfeiriad defnyddiol wrth i chi wneud cais am hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Ceisio profiad gwaith

Pam mae angen profiad gwaith arnaf?

Yn fwy na dim, bydd profiad mewn ystafell ddosbarth yn eich cynorthwyo i benderfynu ai addysgu yw'r dewis gyrfa cywir i chi. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o'r dyletswyddau bob dydd sydd ynghlwm â swydd addysgu. Mae'n amhosibl cael blas go iawn ar y proffesiwn drwy wneud gwaith ymchwil yn unig. Mae profiad gwaith diweddar gyda'r ystod oedran a'r pwnc yr hoffech ei addysgu bob tro yn ofyniad gorfodol ar gyfer y llwybrau hyfforddiant i'r proffesiwn. Yn aml gallwch ddatblygu'ch profiad wrth i chi astudio.

Pa brofiad ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol?

Nid dim ond profiad gwaith mewn lleoliad addysg ffurfiol sydd ar gael i chi. Efallai yr hoffech ychwanegu hyn at eich profiad mewn gwahanol leoliadau gyda gweithgareddau megis mentora, gwrsylloedd haf, clybiau ar ôl ysgol a sgowtiaid. Mae'r rhestr wirioneddol yn ddi-rif o ran sut allai gwirfoddoli neu waith taledig atgyfnerthu eich addasrwydd.

Gallech hefyd geisio profiad gwaith ym mwy nag un lleoliad a gyda mwy nag un ystod oedran. Er enghraifft, os oes gennych ddi-ddordeb mewn addysg gynradd, gallech geisio profiad gwaith ym mwy nag un ysgol. Efallai yr hoffech ystyried profiadau eraill megis tiwtora preifat, hyfforddi chwaraeon, mentora neu wirfoddoli sy'n eich cysylltu â'ch ystod oedran targed. Mae rhai myfyrwyr wedi cwblhau hyfforddiant (Addysgu

Saesneg fel Iaith Dramor) ac wedi addysgu yn

y DU a thramor. Mae rhaglenni cyfnewid ar gael hefyd megis [C:\Users\vw2943\AppData\Local\Microsoft\Windows\INetCache\Content.Outlook\YRMQM77M\RhaglenGyfnewidacAddysguSiapan_Rhaglen Gyfnewid ac Addysgu Siapan](C:\Users\vw2943\AppData\Local\Microsoft\Windows\INetCache\Content.Outlook\YRMQM77M\RhaglenGyfnewidacAddysguSiapan_Rhaglen_Gyfnewid_ac_Addysgu_Siapan) a Chynllun y British Council - [Addysgu dramor fel cynorthwydd iaith Saesneg](#).

Yn gryno, mae cynllunio hyn yn rhywbeth y bydd angen i chi ddechrau meddwl amdano yn gynnar cyn i chi wneud cais i addysgu gan yn aml y gall gymryd amser i wneud trefniadau a dod o hyd i'r amser i ymrwymo i'r profiadau hyn. Darllenwch drwy'r [canllaw Prosbectws](#) am ragor o syniadau ynghylch sicrhau profiad gwaith.

Faint o brofiad gwaith sydd ei angen arnaf?

Mae gofynion profiad ysgol blaenorol yn amrywio rhwng darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon a dyma pam y dylai ymgeiswyr wirio'r disgwyliadau hyn yn gyntaf. Efallai eich bod wedi clywed cyfnod gofynnol o ddeg diwrnod o brofiad mewn ysgol a bydd nifer o ddarparwyr yn gofyn am hyn, er nid oes canllawiau ffurfiol ynghylch y nifer o ddiwrnodau. Yn bennaf, dylai eich profiad mewn ysgol fod gyda'r ystod oedran ac yn y pwnc (os yn berthnasol) yr hoffech ei addysgu. Dylai profiad fod yn "ddiweddar" hefyd. Yn ddelfrydol yn y 12 mis diwethaf ond bydd darparwyr yn ystyried y 2-3 blynedd diwethaf.

Sut allaf drefnu profiad gwaith yn annibynnol?

Yn aml, dyma'r llwybr mwyaf effeithiol i geisio profiad gwaith ac fel arfer mae'n gofyn peth hyfdr a dyfalbarhad ar eich rhan o ran y gwaith trefnu. Mae gan ganllaw y [tîm Sefydliad Tes](#) agwedd synnwyr cyffredin a cham wrth gam i sicrhau profiad gwaith. Yn ogystal, mae gan wefan [Darganfod Addysgu](#) rai awgrymiadau ynghylch ennill profiad.

Gwneud y mwyaf o'ch profiad

Mae'n hynod ddefnyddiol gosod allan eich ffordd o feddwl a gweithredu cyn, yn ystod ac ar ôl eich profiad gwaith. Cyn unrhyw brofiad gwaith, nodwch beth hoffech chi ei ddysgu o'r profiad a pha wybodaeth hoffech ei dysgu. Gall hyn gynnwys ymchwilio'r ysgol y byddwch yn mynd iddi a deall rôl athro a staff cefnogi.

Yn ystod eich profiad gwaith, gwnewch gofnod o unrhyw arddull addysgu creadigol ac arloesol yr ydych wedi'i weld a sut mae gwersi yn cael eu teilwra i gyd-fynd â myfyrwyr sydd â gwahanol alluoedd ac o gefndiroedd gwahanol.

Ar ôl eich profiad, penderfynwch a oes bylchau yn dal i fod yn eich gwybodaeth a pha un ai a oes angen rhagor o brofiad arnoch. Ysgrifennwch adroddiad myfyriol y gellir ei ddefnyddio fel datganiad personol. Gan edrych ymhellach ymlaen, mae [UCAS](#) wedi creu rhai syniadau gwych yn seiliedig ar

baratoi at hyfforddiant athrawon sy'n cynnwys awgrymiadau y gallech eu defnyddio nawr.

Ceisio profiad â thâl

Yn ogystal â gwirfoddoli, mae nifer o fyfyrwyr y Brifysgol Agored eisoes yn gweithio mewn swyddi addysg neu'n eu ceisio wrth iddynt astudio, megis [cynorthwywyr addysgu](#) a [mentoriaid dysgu](#). Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn penderfynu oedi eu cais am hyfforddiant cychwynnol athrawon a cheisio rhagor o brofiad addysgol i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder ymhellach.

4. Hyfforddi i addysgu yng Nghymru

I addysgu mewn ysgol wladol yng Nghymru, rhaid i chi feddu ar radd a statws athro cymwysedig drwy ddilyn rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon. Mae'n ofynnol i bob athro yng Nghymru gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Efallai na fydd rhai ysgolion annibynnol yn nodi statws athro cymwysedig fel gofyniad mynediad, er y bydd nifer ohonynt yn gofyn amdano yn ymarferol.

Llwybrau prifysgol

Gradd gymhwyso. Gall fod yn opsiwn ar gyfer addysgu cynradd a nifer brin o raglenni uwchradd. Yn nodweddiadol, byddai hon yn radd israddedig yn para tair blynedd gyda statws athro cymwysedig.

Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR). Fel rheol, mae'r cyrsiau yn para blwyddyn academaidd os cânt eu cwblhau'n llawn amser, ond mae opsiynau dysgu hyblyg a rhan amser ar gael. Rydych yn mynychu dosbarthiadau yn y brifysgol neu'r coleg lle'r ydych wedi'ch lleoli, a byddwch hefyd yn treulio cyfnod sylweddol o amser ar brofiadau gwaith mewn ysgolion. Fel arfer, caiff profiadau gwaith eu trefnu gan y brifysgol gyda'u hysgolion partner.

TAR rhan amser y Brifysgol Agored. O fis Hydref 2020, bydd llwybr TAR rhan amser i addysgu ar gael ar gyfer lefel cynradd ac uwchradd. Mae'n ddelfrydol os hoffech astudio'ch TAR o gwmpas eich swydd bresennol neu ymrwymïadau eraill mewn bywyd. Mae'n cyfuno dysgu ar-lein o bell dan arweiniad y Brifysgol Agored a phrofiad ymarferol mewn dwy ysgol sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig. Mae'r llwybr rhan amser yn cynnwys 120 diwrnod o brofiad ymarferol mewn ysgol ar draws y cwrs dwy flynedd, gyda pheth hyblygrwydd yn y flwyddyn gyntaf, sy'n eich caniatáu i weithio'n rhan amser mewn ysgol ochr yn ochr â'ch ymrwymïadau cyfredol. Yn yr ail flwyddyn, rhaid cwblhau 30 diwrnod o'ch lleoliadau ysgol mewn bloc parhaus. Mae'n cymryd dwy flynedd i'w gwblhau ac mae ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg. Dylid cyflwyno ceisiadau yn uniongyrchol i'r Brifysgol Agored.

Llwybr cyflogaeth

TAR Cyflogedig y Brifysgol Agored. O fis Hydref 2020, mae TAR cyflogedig yng Nghymru, sy'n cymryd lle y Rhaglen Athrawon Graddedig fel y Llwybr cyflogedig newydd i addysgu. Mae'r llwybr ar gael ar lefel cynradd ac uwchradd ac yn cymryd dwy flynedd i'w gwblhau. Mae'r llwybr hwn ar gyfer pobl sydd eisoes yn gweithio mewn ysgol wladol, fel cynorthwydd addysgu neu mewn rôl nad yw'n addysgu. Os ydych eisoes yn gweithio mewn ysgol, gallwch wneud cais i'ch ysgol eich cefnogi, a bydd Llywodraeth Cymru yn talu ffioedd y cwrs. Byddwch yn gweithio'n llawn amser yn yr ysgol ac yn astudio o gwmpas eich dyletswyddau cyfredol. Dylid cyflwyno ceisiadau yn uniongyrchol i'r Brifysgol Agored.

Mae **Teach First** yn cynnig rhaglen hyfforddiant athrawon taledig dros ddwy flynedd wedi'i dylunio i fynd i'r afael ag anfantais economaidd ac mae ar gael bellach ym mhynciau uwchradd ledled Cymru.

Mae rhai o'r llwybrau hyn ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, yn dibynnu ar y darparwr.



Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio'r Blynyddoedd Cynnar fel y cyfnod mewn bywyd cyn geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen neu rhwng 0-7 oed. Mae cymwysterau ffurfiol mewn Dysgu a Gofal Plant Cynnar yn amrywio yn dibynnu ar y rôl. Mae gan [Gofal Cymdeithasol Cymru](#) wybodaeth ynghylch y cymwysterau sydd eu hangen i weithio mewn ystod o swyddi yn ymwneud â blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Fis Medi 2019, daeth [City & Guilds/CBAC](#) yr unig ddarparwr cyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant newydd y gellir eu cyllido yng Nghymru. Y nod yw symleiddio darpariaeth cymwysterau a chodi safonau yn y sector. Mae'r cymwysterau ar gael o lefelau 1 i 5 ac maent wedi'u dylunio gyda chyfraniad gan gyflogwyr i sicrhau eu bod yn bodloni eu hanghenion.

Er mwyn gweithio fel athro mewn ysgol gynradd, rhaid i chi feddu ar Statws Athro Cymwysedig. Mae gan Lywodraeth Cymru fenter o'r enw Dechrau'n Deg, sy'n rhan o'u Rhaglen Blynyddoedd Cynnar i deuluoedd sydd â phlant dan bedair oed yn byw yn ardaloedd difreintiedig Cymru. Mae gwahanol fathau o swyddi blynyddoedd cynnar ar gael fel rhan o'r [rhaglen Dechrau'n Deg](#).

Addysg gynradd

Rhaid i bob sefydliad sy'n cynnig cyrsiau TAR fodloni eu hunain bod cynnwys addysg flaenorol ymgeiswyr yn darparu'r sylfaen angenrheidiol ar gyfer gwaith fel athro cynradd. Felly, mae'n bwysig iawn eich bod yn gwirio gyda darparwr TAR cynradd y bydd eich gradd arfaethedig yn briodol. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i'ch gradd fod wedi ymdrin â'r holl bynciau neu'r rhan fwyaf o'r pynciau yng nghwricwlwm ysgolion cynradd, gan mai tasg cwrs TAR yw cynefino myfyrwyr â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'u paratoi i gynllunio ac addysgu gwersi mewn perthynas ag o.

Er nad yw'n hanfodol, mae'n fantais meddu ar radd sy'n glir ac yn sylweddol berthnasol i o leiaf un o'r pynciau yn y cwricwlwm cynradd.

Mae pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol fel a ganlyn: Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Gorfforol, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Grefyddol a Chymraeg. Gweler gwefan [Darganfod Addysgu](#) am ragor o gyngor ar ofynion mynediad ar gyfer hyfforddiant athrawon cynradd yng Nghymru.

Noder bod nifer o ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yn derbyn graddau nad ydynt yn seiliedig ar y cwricwlwm, e.e. seicoleg, gwyddorau cymdeithasol, plentyndod ac ieuencid. Fodd bynnag, cynghorir chi yn gryf i wirio hyn gyda'r darparwyr addysg gychwynnol athrawon y dymunech gyflwyno cais iddynt. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o gryfder ym meysydd eraill megis Lefelau A ym mhynciau'r cwricwlwm cenedlaethol a/neu brofiad ysgol neu waith gyda phobl ifanc.

Fel arfer, ystyrir gradd anrhydedd (360 credyd) gyda dosbarthiad 2:2 fel y lleiafswm gofyniad ar gyfer ennill lle ar gwrs hyfforddiant athrawon. Bydd nifer o ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon yn mynnu gradd 2:1.

Os nad ydych yn bodloni'r meini prawf hyn, er enghraifft os oes gennych radd gyffredin (heb anrhydedd) neu radd anrhydedd trydydd dosbarth, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cysylltu â'r darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yr ydych yn gwneud cais iddynt.

Wedi dweud hynny, dylech sicrhau eich bod yn bodloni'r holl ofynion eraill i fynd i addysgu cynradd.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech geisio cyngor gan y sefydliad yr ydych yn gwneud cais iddo am addysg gychwynnol athrawon. Mae eich tîm cymorth myfyrwyr ar gael i'ch cynorthwyo pe dymunech drafod eich rhaglen astudiaeth.

Addysgu uwchradd

I ennill lle ar gwrs TAR uwchradd yng Nghymru (i ddisgyblion 11-18 oed) bydd angen i chi sicrhau craidd astudio clir yn eich gradd ym mhynciau sy'n berthnasol i'r un yr hoffech gael hyfforddiant i'w addysgu (er gyda myfyrwyr hŷn, rhoddir ystyriaeth i brofiad perthnasol hefyd). Gweler y wefan [Darganfod Addysgu](#) am ragor o gyngor ar ofynion mynediad ar gyfer hyfforddiant athrawon uwchradd.

Nid yw'r rheoliadau diweddaraf yn manylu sawl blwyddyn cyfwerth ag astudio pwnc y dylai eich gradd gael. Fodd bynnag, rydym yn argymhell ar gyfer gradd y Brifysgol Agored (360 credyd) eich bod yn cymryd o leiaf gwerth 240 o gredydau o fodiwlau sy'n berthnasol i'r pwnc yr ydych chi'n bwriadu ei addysgu. Ymhellach, i sicrhau bod eich modiwlau yn rhoi sylfaen dda i chi yn y pwnc, yn enwedig ar gyfer y gofyniad i allu addysgu hyd at Lefel A/BTEC Cenedlaethol/NVQ lefel 3, efallai yr hoffech ystyried cymryd mwy na 240 o gredydau yn eich pwnc dewisol.

Gwneud cais am hyfforddiant cychwynnol athrawon cynradd ac uwchradd

Gallwch chwilio a gwneud cais am y rhan fwyaf o gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru drwy [UCAS](#).

Caiff gwybodaeth ynghylch rhaglenni addysg gychwynnol athrawon ei rhyddhau ymlaen llaw, fel arfer erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Yn achos Hyfforddiant Athrawon UCAS, fel arfer gwneir hyn ar ddechrau mis Hydref.

Mae'r broses gwneud cais ar gyfer Hyfforddiant Athrawon UCAS yn gweithredu mewn dau gam; Cais 1 a Chais 2. Gall yr holl fyfyrwyr wneud hyd at dri dewis yng Nghais 1. Os nad ydych yn cael unrhyw gynnig yn y cam cyntaf, cewch fynd ymlaen i Gais 2.

Mae Cais 1 yn agor yn gynnar ym mis Hydref 2020 i chi allu chwilio am gyrsiau hyfforddiant sy'n dechrau'r hydref canlynol ym mis Medi 2021, a chewch ddechrau gwneud ceisiadau cyn gynted ag y bydd y ffenestr hon yn agor.

Dylech wneud cais cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi'r cyfle gorau i chi'ch hunan i ennill y lle ar yr hyfforddiant athrawon yr hoffech. I nifer o fyfyrwyr y Brifysgol Agored, byddant yn gwneud cais am hyfforddiant cychwynnol athrawon wrth iddynt astudio ar gyfer eu modiwl terfynol. **Bydd angen i chi gael cadarnhad o ganlyniad eich gradd cyn dechrau hyfforddiant athrawon.** Dylai bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr y Brifysgol Agored wedi cael cadarnhad o'u dosbarthiad erbyn diwedd mis Gorffennaf ond i leiafswm o fyfyrwyr, efallai na fydd eich gradd yn cael ei dyfarnu tan fis Rhagfyr, yn dibynnu ar ba bryd y byddwch yn ymgymryd â'ch modiwl terfynol. Mae gan [wefan Hyfforddiant Athrawon UCAS](#) fideo i'ch arwain chi gam wrth gam drwy'r broses o wneud cais.

Dylid cyflwyno ceisiadau i lwybrau TAR newydd y Brifysgol Agored yn uniongyrchol i'r Brifysgol Agored. Am ragor o wybodaeth [ewch i dudalen y cwrs](#), neu anfonwch e-bost at Wales-PGCE@open.ac.uk. Gweler [adran 4](#) y canllaw hwn am ragor o fanylion.

Addysgu addysg bellach

Yn bennaf, mae athrawon addysg bellach (AB) yn gweithio gyda dysgwyr ôl-16 a/neu ddysgwyr sy'n oedolion. Maent yn addysgu ar bob lefel, gan gynnwys sgiliau sylfaenol, addysgu academaidd a hyfforddiant galwedigaethol. I addysgu cyrsiau galwedigaethol, bydd disgwyl i chi fod yn arbenigwr ac yn gymwys yn eich maes proffesiynol.

Os hoffech addysgu neu hyfforddi pobl ifanc neu oedolion mae'n debygol y bydd angen cymhwyster addysgu cydnabyddedig arnoch, ac mae rhaglenni addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (PCET) ar gael.

Mae'r llwybrau i hyn yn cynnwys Tystysgrif Raddedig Broffesiynol neu

PCET Addysg (TAR) (a gynigir mewn sawl prifysgol ledled Cymru) a PCET Tystysgrif Addysg Broffesiynol (PCE).

I ddarllen mwy ynghylch dilyn gyrfa mewn cyd-destun ôl-16, gweler gwefan [Darganfod Addysgu](#).

Darlithio ac ymchwil addysg uwch

I ddod yn ddarlithydd prifysgol, fel arfer bydd angen i chi astudio am gymhwyster meistr neu PhD yn y maes yr hoffech ei addysgu.

Yn aml gall darlithwyr ar gyfer pynciau mwy arbenigol neu alwedigaethol ddechrau arni gyda phrofiad o'r maes hwnnw, a chymhwyster addysgu, yn hytrach na PhD.

Mae rhai myfyrwyr ymchwil yn ymgymryd â chyfrifoldebau addysgu rhan amser tra eu bod yn dal i fod yn gofrestredig fel myfyrwyr, sy'n ffordd werthfawr o ddatblygu profiad addysgu. Yng nghanau cynnar gyrfa, gall fod yn anodd iawn ennill cytundeb parhaol fel darlithydd AB ac mae nifer ar gytundebau sesiynol a thymor penodol.

Mae ystod o wefannau i'ch cynorthwyo chi i ddeall y farchnad swyddi academiaidd gystadleuol. Rydym yn eich argymhell i gael cipolwg ar wefannau [Vitae](#), [Jobs.ac.uk](#) a [Prospects](#).

Darlithydd Cyswllt y Brifysgol Agored

Mae myfyrwyr ar fodiwlau'r Brifysgol Agored yn trefnu eu hamser astudio eu hunain, a gall hynny fod yn anodd i'w feistroli. Yn Ddarlithydd Cyswllt, chi yw 'wyneb' y Brifysgol Agored i grŵp o fyfyrwyr yr ydych chi'n cefnogi eu dysg. Maent yn gwneud cyfraniad allweddol i ansawdd addysgu a dysgu ac yn cefnogi myfyrwyr drwy:

- Addysgu ac asesu (ar-lein a thrwy'r post ar gyfer rhai modiwlau).
- Cyswllt unigol drwy e-bost, dros y ffôn neu drwy'r post.
- Tiwtorialau grŵp ac ysgolion dydd (wyneb yn wyneb neu ar-lein).

I ddod yn Ddarlithydd Cyswllt gyda'r Brifysgol Agored, bydd angen i chi feddu ar radd neu gymhwyster proffesiynol neu alwedigaethol yn y maes pwnc yr hoffech ei addysgu. Yn ogystal â'ch arbenigedd academiaidd neu brofiad proffesiynol, rhaid i chi gael ymrwymiad personol i addysg oedolion, a gwerthfawrogiad o'r heriau sy'n wynebu dysgwyr sy'n oedolion ac yn astudio o bell. Mae'n hanfodol bod Darlithwyr Cyswllt yn deall ac yn derbyn amrywiaeth myfyrwyr y Brifysgol Agored a'u hanghenion dysgu. Yn ogystal, mae nifer o Ddarlithwyr Cyswllt yn addysgu llawn neu ran amser mewn sefydliadau addysgol eraill.

Nid yw pob modiwl y Brifysgol Agored yn gofyn am brofiad blaenorol o addysgu, felly mae'n bwysig eich bod yn darllen y fanyleb person i weld a yw'n ofyniad ar gyfer y modiwl(au) yr ydych chi'n gwneud cais i'w diwtora/tiwtora. Am ragor o fanylion, gweler [Addysgu gyda'r Brifysgol Agored](#).

Gallwch gofrestru i gael gwybod am unrhyw swyddi gwag yn y dyfodol dros e-bost. Llenwch y ffurflen gais [mynegiant o ddiddordeb](#). Noder, fodd bynnag, nad yw'r gwasanaeth mynegiant o ddiddordeb yn ffurfio rhan o'n proses recriwtio ffurfiol a'ch cyfrifoldeb chi yw adnabod swyddi gwag addas.

Gallwch hefyd wneud cais am [Swyddi'r Brifysgol Agored](#) sy'n cael eu hysbysebu'n allanol, gan gynnwys [swyddi addysgu ysgolion preswyl](#).

5. Arbenigedd mewn addysgu a gyrfaoedd eraill cysylltiedig ag addysg

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ynghylch meysydd eraill o addysgu, megis lleoliadau eraill a swyddi ehangach yn y sector addysg, yr hoffech eu hystyried o bosibl. Dylech sicrhau eich bod yn ymchwilio'n ofalus i sut allwch hyfforddi ar gyfer y rhain a beth all y goblygiadau fod o ran cynllunio'ch astudiaeth yn y Brifysgol Agored.

Addysgu Saesneg fel Iaith Dramor

Mae Addysgu Saesneg fel Iaith Dramor yn golygu addysgu Saesneg, naill ai yn y DU neu dramor, i fyfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf na'u prif iaith. Mae athrawon Addysgu Saesneg fel Iaith Dramor yn gweithio mewn ysgolion iaith masnachol, ysgolion cynradd ac uwchradd, mewn AB ac yn y gymuned. Mae cyfleoedd i'w cael hefyd mewn sefydliadau datblygu, adrannau llywodraethol, sefydliadau gwirfoddoli, cwmnïau aml-wladol a'r British Council. Gall rhai addysgu mewn diwydiant ac eraill yn hunangyflogedig. Gall unigolion o bob oedran a lefel fod yn fyfyrwr, ac mae meintiau'r dosbarthiadau yn amrywiol, yn dibynnu ar le'r ydych chi'n addysgu. Fel arfer, caiff dosbarthiadau eu cynnal yn Saesneg, hyd yn oed gyda dechreuwyr.

Mae Addysgu Saesneg fel Iaith Dramor yn gynyddol yn dod yn swydd raddedig ac mae hi'n fwy anodd bellach i'r rheiny sydd heb gymwysterau ffurfiol i gael swyddi, a bron yn amhosibl yn y DU. Os oes gennych addysg sylfaenol dda a gafael ragorol ar y Saesneg, mae'n bosibl dod o hyd i waith yn y sector preifat dramor heb hyfforddiant na phrofiad, ond yn aml byddant yn gofyn am radd.

Mae nifer o ysgolion iaith yn y DU a thramor yn cynnig cyrsiau hyfforddiant yn amrywio o gyflwyniadau byrion dros ychydig ddyddiau i gyrsiau dwys â thystysgrif dros bedair i chwe wythnos.

Mae penderfynu pa gwrs yr hoffech ei wneud yn dibynnu ar p'un ai a hoffech yrfa bwrpasol yn y maes Addysgu Saesneg fel Iaith Dramor neu os hoffech ddefnyddio'ch cymhwyster i ennill profiad a gweld y byd. Dyma'r ddau gwrs a dderbynnir gan amlaf:

- [CertTESOL yn Trinity College London](#) (Tystysgrif Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill)

- [CELTA yn Rhydychen](#) (Tystysgrif Addysgu Saesneg i Oedolion).

Mae llawer o gyrsiau i ddewis ohonynt felly sicrhewch eich bod yn cael rhywbeth sy'n bodloni'r safonau rhyngwladol, sef 100 awr o gwrs a 6 awr o ymarfer addysgu byw. Byddwch yn ofalus iawn o gyrsiau ar-lein yn unig nad ydynt yn cynnig hyn. Mae'n werth nodi mai CertTESOL a CELTA yw'r unig ddau gymhwyster Addysgu Saesneg fel laith Dramor sy'n cael eu rhestru gan y British Council fel cymhwyster derbyniol rhagarweiniol i addysgu sy'n bodloni eu safonau a'u gofynion.

Addysg arbennig

Mae addysg anghenion addysgol arbennig ac anabledd yn ymdrin ag ystod eang o anghenion cefnogi ychwanegol i ddysgwyr. Dwy swydd y gofynnir i ni yn aml ddarparu cyngor ar eu gofynion mynediad yw dod yn athro Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a Chydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCo). Darperir rhagor o fanylion ynghylch y ddwy swydd gan y [Sefydliad TES](#).

Athro Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

I ddod yn [athro anghenion addysgol arbennig \(AAA\)](#) mewn ysgol brif ffrwd, mae angen statws athro cymwysedig. Mae nifer o athrawon yn mynd i'r maes hwn ar ôl iddynt fod yn addysgu ers ychydig flynyddoedd ac wedi ennill profiad.

Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCo)

SENCo yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am sicrhau yr ymgymmerir â chydlyniant yn y ddarpariaeth i'r holl ddysgwyr sydd ag AAA yn yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru wedi [cyhoeddi canllawiau](#) i egluro rôl SENCo ac annog rhannu arfer dda. Er bod y SENCo yn swydd anstatudol, bydd gan y rhan fwyaf o leoliadau addysg fynediad at SENCo.



Gyrfaoedd eraill cysylltiedig ag addysg

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar swyddi addysgu'r brif ffrwd ar draws amrywiaeth o ystodau oedran, er ein bod yn cydnabod bod y sector addysg yn amrywiol. Dyma pam efallai yr hoffech archwilio addysgu mewn lleoliadau eraill ar wahân i addysg brif ffrwd neu archwilio swyddi ehangach yn y sector addysg hyd yn oed. Mae addysg gymunedol, amgylcheddol, iechyd a threftadaeth yn sampl o'r lleoliadau y gallech eu harchwilio.

Mae nifer o fyfyrwyr y Brifysgol Agored yn penderfynu datblygu eu profiad yn yr ystafell ddosbarth drwy swyddi cefnogi megis [Cynorthwyrwyr Addysgu](#) cyn ymrwymo i hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae'r [cyhoeddiad Education Alternatives](#) gan AGCAS yn llenyddiaeth argymelledig i ddeall ac archwilio'ch opsiynau ymhellach yn ogystal â'n gweminar ar [Educational Alternatives to Teaching](#).

6. Adnoddau a chymorth i ddarpar athrawon sydd ag anabledd

Edifar yw bod unigolion anabl heb gynrychiolaeth ddigonol yn y proffesiwn addysgu, ond ni ddylai hyn eich rhwystro rhag ystyried addysgu. Gall nifer o fyfyrwyr a graddedigion anabl weithio heb fod angen addasiadau na chymorth penodol ond i rai myfyrwyr, gall rhagor o gymorth gynorthwyo i alluogi mynediad at waith.

Eich amgylchiadau unigol

Rydym yn eich argymhell i ddarllen y cyfarwyddyd priodol isod a gwneud ymholiadau anffurfiol fel rhan o ymarfer casglu gwybodaeth i ganfod sut mae'r cyfarwyddyd anabledd yn perthnasu i chi.

Yng Nghymru, mae [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) a [Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001](#), yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr sydd ag anableddau neu anghenion addysgol ychwanegol (SEN). Nid yw ymgeiswyr sydd ag anableddau dan unrhyw rwymedigaeth i'w datgelu. Penderfyniad personol yw penderfynu datgelu, felly i'ch cynorthwyo gweler ein canllaw lawrlwythadwy:

- a. [Eich Canllaw Cynllunio Gyrfa \(Adran 5: Materion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth\)](#)
- b. Yn ogystal, mae rhagor o wybodaeth ddefnyddiol i'w chael ar safle [Cymorth anabledd](#) y Brifysgol Agored a dwy weminar wedi'u recordio:
- c. [Y rhaglen Mynediad at Waith](#)
- d. [Arddangos eich Potensial: Addasiadau a Gonestrwydd](#)

Mae'n gyfrifoldeb ar ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon i sicrhau bod gan unigolion y capasiti iechyd a chorfforol i addysgu ac ni fyddant yn rhoi plant a phobl ifanc mewn risg o niwed. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau holiadur ffitrwydd cyn dechrau hyfforddiant athrawon.

Adnoddau ychwanegol

e. [Cefnogi Athrawon dan Hyfforddiant ac Athrawon Dyslecsig](#)

Mae'r canllaw hwn gan Brifysgol Southampton yn archwilio strategaethau ar gyfer athrawon dyslecsig ac adnoddau defnyddiol.

f. [Rhwydwaith Athrawon Anabl](#)

Sefydliad yn yr Unol Daleithiau ond maent yn croesawu addysgwyr anabl o unrhyw wlad. Mae adnoddau yn cynnwys fforymau trafod ac E-gylchlythyr.

g. [Fforymau Cysylltu TES](#)

Ymunwch â fforymau ar-lein i gysylltu â phobl broffesiynol gyffelyb i chi ac am gyfle da i ofyn am gyngor a dysgu gan eraill. Mae trafodaethau defnyddiol yn cynnwys hyfforddi i addysgu gydag anabled.

h. [Undeb Addysg Cenedlaethol](#)

Cynrychioli a chefnogi athrawon anabl ac yn cynnal cynhadledd athrawon anabl flynyddol.

i. [Get into Teaching](#)

Rhagor o gyngor a chymorth os ydych yn hyfforddi i addysgu ac mae gennych anabled.

7. Cyllid ar gyfer hyfforddiant athrawon

Mae'r swm y mae darparwyr yn ei godi yn amrywio - gallwch weld faint mae eich darparwr dewisol yn ei godi ar ei wefan.

Mae'n bosibl bod grantiau addysgu gan y Llywodraeth ar gael i'ch TAR. Am ragor o wybodaeth ynghylch y cymelliannau ariannol, gweler [safle Darganfod Addysgu](#).

Mae athrawon dan hyfforddiant ôl-radd ac israddedig yn gymwys am gyllid myfyrwyr i gynorthwyo gyda thalu ffioedd rhaglen hyfforddiant a chostau byw. Gwiriwch wefan [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#) i gael gwybod beth allwch chi fod yn gymwys amdano.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud TAR y Brifysgol Agored, mae'r [ffioedd a chyllid](#) yn wahanol yn dibynnu ar b'un ai a ydych ar y llwybr cyflogedig neu ran amser.

8. Cwestiynau cyffredin

Yn yr adran hon rhoddir cyngor sylfaenol ar rai o'r cwestiynau cyffredin sy'n ymwneud ag addysgu gan fyfyrwyr y Brifysgol Agored. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod amgylchiadau pob myfyriwr yn wahanol a dyma pam all ein cyngor cyffredinol fod yn anghywir ac amherthnasol ar adegau, felly sicrhewch eich bod yn cwblhau eich ymchwil eich hun bob tro.

A allaf i addysgu gyda gradd Agored?

Mae nifer o athrawon yn meddu ar radd Agored, ond mae'n bwysig bod gennych wybodaeth dda ynghylch y pwnc y byddwch yn ei addysgu, ac mae'n dibynnu hefyd ar y lleoliad a'r ystod oedran. Golyga hyn bod gwahanol ddisgwyliadau rhwng y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, AB ac AU. Cysylltwch â'ch darparwr addysg gychwynol athrawon dewisol am gyngor penodol.

Faint o'm gradd sydd angen cysylltu â'r cwricwlwm cenedlaethol?

Bydd hyn yn dibynnu ar p'un ai a ydych yn addysgu cynradd neu uwchradd a bydd angen i chi ystyried safbwyntiau'r darparwyr yr ydych yn gwneud cais iddynt. Ar gyfer addysg gynradd, dylech ddangos dealltwriaeth dda o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol. Fel rheol gyffredinol, dylai o leiaf hanner eich gradd fod yn eich pwnc ysgol dewisol er gall hyn ymwneud â chynnwys yn benodol a'ch dewis modiwlau yn hytrach na theitl eich gradd.

A yw'n bosibl cael lle ar gwrs hyfforddiant athrawon heb y cymwysterau TGAU gofynnol?

Bydd angen i chi ddangos safon sy'n gyfwerth â gradd B, neu uwch, yn arholiadau TGAU Saesneg a/neu Gymraeg a Mathemateg cyn i'ch rhaglen hyfforddiant ddechrau. Caiff gradd 5 ei derbyn fel gradd sy'n gyfwerth â gradd B, o TGAU diwygiedig yn Lloegr. Mae pob darparwr hyfforddiant Cymraeg yn cynnig prawf cyfwerthedd. Mae cymwysterau cyfwerth â TGAU yn ofynnol waeth pa gymhwyster uwch sydd gennych mewn pwnc cysylltiedig. Os ydych yn bwriadu addysgu disgyblion rhwng 3 ac 11 oed (blynyddoedd cynnar a chynradd), rhaid i chi hefyd gyflawni safon gyfwerth â gradd C, neu uwch, mewn arholiad pwnc gwyddoniaeth TGAU.

A allaf addysgu gyda gradd trydydd dosbarth

neu radd gyffredin?

Ni fydd y rhan fwyaf o ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yn ystyried ymgeiswyr heb o leiaf 2:2, felly mae'n annhebygol iawn y cewch eich derbyn os oes gennych radd gyffredin (heb anrhydedd) neu radd anrhydedd trydydd

dosbarth. Yn achosion eithriadol, gellir cael darparwyr sy'n fwy agored ac sy'n edrych ar ba sgiliau a phrofiad ysgol y gall ymgeisydd eu cyflwyno neu sydd efallai'n ymgymryd ag astudiaeth ôl-radd. Yn y sefyllfa hon mae ymchwilio a chysylltu â nhw cyn gwneud cais yn allweddol.

A oes rhai llwybrau hyfforddiant athrawon yn cael eu cydnabod yn well nag eraill?

Nid oes yr un llwybr hyfforddiant yn cael ei gydnabod yn allanol yn fwy ffafriol na'r llall. Mae'n debygol y bydd ffactorau yn eich amgylchiadau unigol a fydd yn golygu bod gennych ffafriaeth. Oherwydd hyn, sicrhewch eich bod yn deall eich opsiynau ac yn ymchwilio i bob llwybr i'ch cynorthwyo chi i benderfynu.

A yw cymwysterau addysgu'r DU yn ddilys dramor?

Efallai eu bod yn gyfwerth a chyfredol, ond mae'r ateb yn dibynnu'n llwyr ar y wlad, sefydliad, cwricwlwm a rheoliadau. Oherwydd hyn rydym yn argymhell eich bod yn ymchwilio'n annibynnol i ofynion y wlad y mae gennych ddiddordeb symud iddi a'ch bod yn cysylltu ag ysgolion y rhanbarth. Mae'r Sefydliad TES wedi ysgrifennu erthygl ddefnyddiol ynghylch hyn: [Which qualification do I need to teach abroad?](#)

A allaf i addysgu gydag euogfarn droseddol?

Nid oes ateb 'cewch' neu 'na chewch' pendant i'r cwestiwn hwn gan ei bod yn dibynnu ar beth yw'r euogfarn. Mae addysgu wedi'i eithrio [o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974](#) ac fel athro dan hyfforddiant posibl, byddwch yn destun gwiriadau manwl gan y [Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#) (DBS). Golyga hyn bod rhaid i chi ddatgelu unrhyw euogfarn. Eich cam cyntaf yw ceisio cyngor yn seiliedig ar eich amgylchiadau unigol. Rydym yn eich argymhell i gysylltu â'r elusen genedlaethol [NACRO](#) am ragor o gyngor.

A yw'n bosibl addysgu mewn ysgolion cynradd os ydych wedi'ch hyfforddi mewn uwchradd (ac fel arall)?

Yn ddamcaniaethol, gyda statws athro cymwysedig mae'n bosibl addysgu unrhyw ystod oedran (5-16) a phwnc, ond mae'n debygol y bydd ysgolion yn gwneud dyfarniad ar eich addasrwydd yn seiliedig ar eich gwybodaeth o'r cwricwlwm cenedlaethol a chynnwys eich cymwysterau academaidd. Yn ogystal, os oes gennych statws dysgu a sgiliau athro cymwysedig o addysgu mewn addysg bellach

ac aelodaeth o'r Gymdeithas Addysg a Hyfforddiant, byddwch yn gymwys i weithio fel athro cymwysedig mewn ysgolion/ colegau yn Lloegr.

Atodiad 1: Manylion cyswilt y Brifysgol Agored

Am gyngor ar ddewis cymwysterau a modiwlau'r Brifysgol Agored, ewch i [wefan y Brifysgol Agored](#) neu ffoniwch yr adran Recriwtio Myfyrwyr.

Recriwtio Myfyrwyr

The Open University PO Box 197 Milton
Keynes
MK7 6BJ

Ffôn: +44 (0) 300 303 5303

E-bost drwy www.open.ac.uk/contact

Mae ein cynghorwyr ar gael i gymryd eich galwad ddydd Llun i Gwener 08:00 hyd at 20:00, dydd Sadwrn 09:00 hyd at 17:00 amser y DU, ac eithrio gwyliau banc.

I siaradwyr Cymraeg

Os byddai'n well gennych drafod eich anghenion astudio yn Gymraeg, cysylltwch â'r Brifysgol Agored yng Nghymru yng Nghaerdydd, lle byddwn yn falch o gynnig arweiniad personol yn ogystal â gwybodaeth ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael. Cewch gysylltu â ni drwy'r post, dros y ffôn neu e-bost, neu mae croeso i chi ymweld â ni. Rydym yn eich argymhell i wneud apwyntiad yn gyntaf i sicrhau y bydd cynghorydd priodol ar gael.

Er y gallwn gynnig amrywiaeth o wasanaethau i siaradwyr Cymraeg, fel arfer mae ein deunyddiau astudio ac addysgu yn Saesneg.

Ffôn: +44 (0) 29 2047 1170

E-bost: wales@open.ac.uk

I siaradwyr Cymraeg

Os yw hi'n well gennych drafod eich anghenion astudio yn Gymraeg mae croeso i chi gysylltu â'r Brifysgol Agored yng Nghymru yng Nghaerdydd lle byddwn

yn falch o roi cyfarwyddyd personol i chi yn ogystal â gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Gallwch gysylltu â ni drwy lythyr, galwad ffôn neu neges e-bost, neu, os yw hi'n well gennych, mae

croeso i chi ymweld â ni. Byddem yn argymhell i chi wneud apwyntiad yn gyntaf i sicrhau y bydd arbenigwr priodol ar gael.

Nodwch, os gwelwch yn dda, er ein bod yn gallu cynnig ystod o wasanaethau i siaradwyr Cymraeg, bod ein deunyddiau cwrs ac addysgu fel arfer yn Saesneg.

Rhif ffôn: + 44 (0) 29 2047 1170

E-bost: wales@open.ac.uk

Gweriniaeth Iwerddon

Canolfan Ymholiadau a Chyngor yn Nulyn Ffôn:

+353 (1) 678 5399 neu

Y Brifysgol Agored yn yr Iwerddon Ffôn:

+44 (0)28 9032 3722.

E-bost: ireland@open.ac.uk

Atodiad 2: Gwybodaeth ynghylch gyrfaoedd Y Brifysgol Agored

Ar gyfer gwybodaeth a chyngor ar yrfaoedd ewch i [Wasanaethau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd](#) y Brifysgol Agored. Mae'r wefan hon hefyd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos myfyrwyr presennol a chyn-fyfyrwyr y Brifysgol Agored sydd wedi mynd i'r byd addysg. Gall myfyrwyr y Brifysgol Agored weld fforymau a gweminarau ynghylch addysgu ac addysg. Bydd angen eich manylion mewngofnodi y Brifysgol Agored arnoch i weld y rhain.

Am fanylion ynghylch cymwysterau a modiwlau'r Brifysgol Agored, ewch i [brosbectws y Brifysgol Agored](#).

Prospects

Mae [sectorau swyddi ar Prospects](#) yn rhoi canllawiau cynhwysfawr ar wahanol feysydd gyrfa, gan gynnwys addysgu ac addysg.

Mae [proffiliau swyddi ar Prospects](#) yn eich galluogi chi i chwilio am yrfaoedd megis athro'r blynyddoedd cynnar, athro ysgol gynradd/uwchradd, darlithydd addysg uwch/pellach, athro Saesneg fel Iaith Dramor neu athro anghenion addysgol arbennig.

TARGETpostgrad

Mae [TARGETpostgrad](#) yn rhoi gwybodaeth a chyngor manwl ar lwybrau i ddod yn athro, dewis cwrs hyfforddiant athrawon a gwneud cais amdano a gwneud cais am gyllid.

Llyw.Cymru

Mae [Addysg a Sgiliau Llyw.Cymru](#) yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr ynghylch addysgu yng Nghymru, gan gynnwys opsiynau cyllid.

Darganfod Addysgu

Mae [Darganfod addysgu](#) yn fenter sydd wedi'i chreu a'i chefnogi ar y cyd gan y 4 consortia addysgol rhanbarthol yng Nghymru a phartneriaid.

Ymarfer Addysgu UCAS

Mae [Hyfforddiant Athrawon UCAS](#) yn cynnig gwybodaeth a chynghor ar lwybrau prifysgol ac ysgol i addysgu yn ogystal â chymorth gyda'r broses cyflwyno cais.